| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 28 MEDI 2012 |
| TEITL | CYNHADLEDD YMDDIRIEDOLWYR LGPS |
| AWDUR | DILWYN WILLIAMS<br>CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL |

1 Fis Mehefin, bu i'r Cynghorwyr John Pughe Roberts, Tudor Owen a minnau fynychu'r 9fed Cynhadledd flynyddol Ymddiriedolwyr LGPS.

2 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r materion allweddol drafodwyd yn y gynhadledd.

3 Fel arfer roedd y gynhadledd yn cynnwys cymysgfa o siaradwyr diddorol oedd yn codi pwyntiau dilys a oedd werth eu nodi, ynghyd a rhai nad oedd o gymaint o ddiddordeb efallai. Dim ond 66 oedd wedi eu rhestru i fynychu'r digwyddiad.

4 Y siaradwyr cyntaf oedd Cynghorydd Roger Phillips o Swydd Henffordd a Brian Strutton, Ysgrifennydd Cenedlaethol Gwasanaethau Cyhoeddus y GMB. 'Roeddent yn siarad am y cynllun LGPS newydd oedd yn cael ei roi ymlaen gan y cyflogwyr a'r undebau fel y cynllun gorau oedd yn bosib ei roi at ei gilydd o ystyried y cyfyngiadau roeddent yn gweithio oddi tanynt.

5 Yn benodol, roeddent wedi rhoi ystyriaeth hir a dwys i'r opsiwn 50:50 (lle y gall aelodau ddewis i gymryd hanner y buddiannau am hanner y gost) ond ystyriwyd fod hyn yn angenrheidiol er mwyn ceisio osgoi i niferoedd ddad-ymaelodi o'r Gronfa ac ystyriwyd na fyddai unigolion yn ei ddefnyddio ond fel trefniant dros dro. Nid yw'r rhesymeg yma yn eglur iawn gan nad yw'r rhai sydd yn yr hicynau cyflog is yn wynebu cynnydd yn eu cyfraniadau (ac felly ni fyddent yn wynebu unrhyw gost uwch i roi achos iddynt adael y Gronfa). Gellid gofyn fodd bynnag a allasai'r opsiwn 50:50 wneud i eraill ystyried yr opsiwn rhatach fel opsiwn newydd nad yw'n golygu peidio bod â phensiwn o gwbl.

6 Wedyn bu i Terry Crossley o DCLG amlinellu ei deimladau am lywodraethu'r cynllun i'r dyfodol fydd yn cynnwys Deddf Bensiynau a ddylai dderbyn cymeradwyaeth frenhinol yng ngwanwyn 2013 gyda darpariaethau penodol i'r LGPS yn cael eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth eilradd i gychwyn o 2015. O ran llywodraethu mae'n debygol y bydd y ddeddf yn cynnwys darpariaethau ynghylch hyfforddiant, cyfarfodydd blynyddol, ymgynghori a thryloywder.

7 Wedyn rhoddodd Tim Lunn o AON Hewitt ei bersbectif personol am beth ddylid ei roi yn y trefniadau llywodraethu newydd. Roedd yn awgrymu pedwar peth y dylai cyflogwyr cronfa fod â hawl iddynt -

- Dylent gael strategaeth ariannu glir fel eu bod yn ymwybodol i ble y maent yn anelu a pham, fel y gallent baratoi eu hunain mewn da bryd ar gyfer materion sy'n dod i'r amlwg;
- Dylent fod yn ymwybodol o unrhyw risgiau a chostau y maent yn gyfrifol amdanynt mewn perthynas â chyflogwyr eraill yn y Gronfa;
- Ni ddylent gael eu rhoi yn agored i lefelau annerbyniol o risg;
- Dylent allu cael enillion buddsoddi da.

Mae'r tri cyntaf o'r rhain yn ymwneud â theilwra strategaethau buddsoddi ar gyfer cyflogwr unigol, ac mae yn codi'r cwestiwn a ddylem fod yn dechrau meddwl am symud i sail uned (unitisation).

8 Nesaf bu i Josh McCallum, Uwch Economegydd Incwm Sefydlog gyda UBS roi ei farn ar ble mae'r sefyllfa economaidd ac yn benodol economïau Ewropeaidd yn mynd, a bu iddo amlygu ein bod ar drothwy dwy wahanol sefyllfa bosibl ar gyfer Ewrop –

- Un lle gwelir bod y risg o chwalu'r parth ewro yn cynyddu; ymylon y parth ewro yn cael eu cau allan o farchnadoedd sofran; benthyca rhwng banciau yn stopio; hyn yn gorlifo i'r craidd drwy'r banciau a chyfyngiadau cyfalaf yn cael eu cyflwyno gyda gwledydd yn gadael yr ewro.
- Fel arall fe allai'r risg o chwalu'r parth ewro leihau; gwledydd ar y cyrion yn benthyca yn rhatach; hyder yn dychwelyd; buddsoddiad yn cynyddu; masnach ryngwladol yn codi yn ei ôl.

9 Amlinellodd pam na ddylai'r Almaen adael i'r ewro ddymchwel a dangosodd y gallai cost arbed yr ewro fod oddeutu EUR 1k – 3k fesul person fesul blwyddyn ym mlwyddyn 1; tra byddai gadael i'r ewro ddymchwel yn costio EUR 6k – 8K fesul person ym mlwyddyn 1 a EUR 3.5k – 4.5k y flwyddyn wedi hynny.

10 Dangosodd ymhellach bod economi Tsieina yn arafu ryw gymaint ac nad oedd hyn am fod yn help i economi'r byd, ac o ran economi'r DU ei fod yn annatod gysylltiedig ag Ewrop gan fod bron hanner ein hallforion i wledydd y parth ewro (o'i gymharu â 11% UDA a 2% Tsieina). Roeddem yn manteisio o'r statws 'hafan ddiogel' ar gyfer giltiau ond o ganlyniad nid oedd perfformiad ecwiti mor ffodus.

11 Cafwyd diweddariad gan Eversheds LLP wedyn ar y materion cyfreithiol cyfredol oedd o ddiddordeb yn enwedig rhai achosion diweddar parthed talu buddiannau ar farwolaeth ac i bwy y dylent gael eu talu ynghyd a rhai achosion cysylltiedig i'r Ombwdsman.

12 Bu iddynt hefyd amlygu achosion diweddar lle bu i gyflogwyr fynd yn fethdalwyr ac awgrymwyd y dylai Cronfeydd wneud asesiad risg ar eu cyflogwyr a phe bai unrhyw un ohonynt yn mynd i'r wal, y gallai Cronfeydd yn hawdd fod yn un o'r credydwyr mwyaf, ac y dylent ystyried cyflogi eu diddymwyr eu hunain.

13 Tra bod gan nifer o'n cyflogwyr gyfamod gyllido sy'n seiliedig ar fedru codi treth, mae sawl un nad oes ganddynt y fath gyfamod, ac efallai y dylem fod yn rhoi mwy o sylw i'r maes yma.

14 Wedyn bu i Dave Simson o Hymans Robertson sôn am y ddeddfwriaeth ymuno yn awtomatig ("auto enrolment") sydd ar ddod i rym. Nododd ei bod yn ofynnol o'r 1 Hydref 2012 i bob gweithiwr cymwys gael eu cofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn gweithle perthnasol.

15 Bydd rhaid i gyflogwyr gofrestru'n awtomatig ynghyd â rheoli optio allan a chadw cofnodion priodol. Bydd yn ofynnol iddynt hefyd ail ymuno pob tair blynedd, gyda dirwyon sylweddol o bosibl am beidio cydymffurfio (£5,000 y dydd ar gyfer y rhai sydd efo > 250 o weithwyr).

16 Gallasai hyn wrth gwrs arwain at gostau uwch o ran cyfraniadau cyflogwr ynghyd a chostau ychwanegol i gyflogwyr a'r corff sy'n gweinyddu.

17 Bydd yn cael ei gyflwyno mewn camau dros nifer o flynyddoedd o 1 Hydref yn ddibynnol ar faint PAYE y cyflogwr. Mis fydd y cyfnod optio allan, ond ni ddylai cyflogwyr roi gwybodaeth i staff ar sut i optio allan !

18 Rydym ar hyn o bryd yn cynghori cyflogwyr ar beth sydd angen iddynt ei wneud i weithredu'r trefniadau newydd.

19 Wedyn amlygodd Nicola Mark o Gronfa Bensiwn Norfolk y cytundebau fframwaith roeddynt wedi eu llunio ar gyfer gwasanaethau megis actwari a chynghori ar fuddiannau, a allasai fod o ddefnydd i awdurdodau yn hytrach na'u bod yn gorfod mynd drwy broses dendro eu hunain. Gallasai hwn fod o ddefnydd i ni yn y dyfodol petai angen i ni brynu gwasanaethau o'r fath.

20 Roedd diweddglo'r gynhadledd yn cynnwys trafodaeth ar ddewisiadau amgen i fuddsoddi mewn bondiau ac ecwiti. Roedd y siaradwyr i gyd yn ystyried yr un meysydd â Chronfa Gwynedd ond yn ddiddorol, roedd Cronfa Bensiwn Glannau Merswy yn buddsoddi drwy eu rheolwyr buddsoddi mewn prosiectau gwastraff bwyd yng Nghymru ! Roeddent yn buddsoddi ym mhrosiect GwyriAD yng Ngwynedd, sydd yn codi'r cwestiwn a ddylem ni fod wedi cymryd mantais o gyfle o'r fath ein hunain. Efallai fod hwn yn fater y dylem fynd ar ei ôl efo Hymans Robertson.